CYNGOR CYMUNED TRAWSFYNYDD
RHEOLAU MYNWENTYDD CYHOEDDUS PENCEFN A SALEM TRAWSFYNYDD

Y Cyngor sydd â'r hawl i ganiatáu claddedigaeth

1. Rhoddir caniatad i'r canlynol yn unig gael eu claddu yn Mynwentydd Pencefn a Salem
   (a) Pobl sydd yn etholwyr, a'u priod (neu gymar), ac yn byw o fewn cymuned Trawsfynydd.
   (b) Pobl sydd wedi byw ac wedi eu cynnwys ar y rhestr etholwyr (a'u priod neu gymar) o fewn cymuned Trawsfynydd am gyfnod o bum mlynedd neu fwy.
   (c) Plant o dan 18 oed sydd wedi eu magu o fewn cymuned Trawsfynydd, neu blant o dan 18 oed i rieni a gynhwysir yn 1(a) neu 1(b) uchod.
2. Ni chaniateir prynu bedd cadw neu man claddu gweddillion a amlosgwyd cadw.
3. Ni chaniateir i berchennog bedd cadw ei werthu i unrhyw un oddigerth i'r Cyngor Cymuned.
4. Ni chaniateir dewis unrhyw fan claddu arbennig.
5. Ni werthir bedd newydd i unrhyw bwrpas oddigerth i gladdu corff/neu gweddillion a amlosgwyd, yn unol a rheolau 1(a) i 1(c).
6. Yr ymgymerwr sydd yn gyfrifol am sicrhau yswiriant atebolrwydd dilys i gynnwys unrhyw un sydd yn gweithio ar ei ran ac unrhyw un sydd yn mynychu angladd yn unrhyw un o'r mynwentydd.
7. Os bydd ymgymerwr yn torri unrhyw un o reolau'r mynwentydd gall hyn effeithio ar ei hawl i gael claddu ym Mynwent Pencefn a Salem.
8. Rhaid rhoi rhybudd o gladdedigaeth i Swyddog Ariannol y Cyngor Cymuned cyn gynted â phosib ar ôl marwolaeth yr ymadawedig.
9. Ni ddylai ymgymerwyr gytuno a'r ddyddiad nac amser angladd gyda theulu yr ymadawedig hyd nes y bydd hyn wedi ei gadarnhau gan y Cyngor Cymuned wedi iddynt gysylltu gyda'r torrwr beddi swyddogol i gadarnhau y dyddiadau sydd ar gael ar gyfer angladd.
10. Bydd trefniadau angladdau yn ddibynol ar argaeledd y torrwr beddi ac hefyd y tywydd.
11. Nid oes gan y Swyddog Ariannol hawl i roi caniatâd i fedd gael ei agor, ond yn y drefn sydd wedi ei gytuno gan y Cyngor Cymuned.
12. Caniateir beddfaen 3 troedfedd o uchder, 2 droedfedd 6 modfedd o led, a dim mwy na 4 modfedd o drwch.
13. Ni chaniateir gosod cyrbau ym Mynwent Salem nac yn Adran C yn Mynwent Pencefn, nac unrhyw gofadail ar wahân i'r beddfaen ar ben bedd. Ni chaniateir defnyddio unrhyw wrthrychau gwydr na serameg o unrhyw fath ar y beddi. Bydd gan y Cyngor yr hawl i waredu unrhyw wrthrych o'r fath ar sail diogelwch.
14. Codir y swm o £60 am osod y garreg gyntaf yn y mynwentydd a £30 am ail-osod carreg a chyfrifoldeb y teulu fydd symud y garreg pe byddai angen.
15. Gofynnir i'r teulu osod arwyddbost gydag enw'r ymadawedig arni ar y bedd, yn union ar ôl y gladdedigaeth. Dylai gosodwr y beddfaen fod yn gyfrifol am symud unrhyw bridd neu weddill a'i gludo o'r safle.
16. Mae'n ofynnol i'r saer maen ofyn am ganiatâd y Cyngor cyn dod â beddfaen i mewn i'r mynwentydd a sicrhau y lleoliad priodol. Dylid hefyd hysbysebu'r Swyddog Ariannol o flaen llaw cyn symud beddfaen o'r mynwentydd.
17. Rhaid cadw y beddau yn daclus, ac os bydd angen ailosod beddfaen, dylid gwneud hynny o fewn deuddeng mis, oni wneir, bydd gan y Cyngor hawl i ymyrryd yn y mater.
18. Dylai pob gwaith ynglŷn â'r agor a chau bedd a'r gwaith ynddo, gael ei wneud gan berson neu bersonau a benodir gan y Cyngor.
19. Ni chaniateir gweithio (gan gynnwys agor a chau bedd), tra bo angladd yn cymryd lle yn y fynwent.
20. Ni fydd y Cyngor yn gyfrifol am unrhyw niwed a wneir i feddfaen neu gofadail o unrhyw fath.
21. Ceidw'r Cyngor yr hawl bob amser, i newid neu ychwanegu at y rheolau hyn a'r costau/taliadau yn unol a deddfau claddu (Deddf Llywodraeth Leol 1972), ac fe werthir yr holl safleoedd beddau yn ddarostyngedig i'r cyfryw reolau, ac i unrhyw rai eraill a wneir gan y Cyngor. Hwn hefyd yn ddarostyngedig i'r trefniadau presennol neu unrhyw orchymyn yn y dyfodol a all gael eu rhyddhau mewn cysylltiad â mynwentydd gan yr Ysgrifennydd Gwladol.
22. Ni fydd y Cyngor yn gyfrifol am unrhyw niwed a achosir i eiddo o ganlyniad i esgeulustod unrhyw gontractiwr.

Ebrill 2024